



Rydym yn recriwtio Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltiad

GADEWCH ARGRAFF gyda phobl sy'n gwneud i bethau ddigwydd

Rydym yn hynod lwcus o weithio gydag ystod eang o gleientiaid anhygoel sy'n gwneud y gwaith creadigol rhagorol sy'n llywio ein cymdeithas a'r ffordd rydym yn gweld y byd. I'r cleientiaid a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw, rydym yn cynnig tîm ffantastig o bobl yn cyflawni ystod amrywiol o fentrau ardderchog a thrawsnewidiol.

Fel cwmni, rydym yn byw ein gwerthoedd bob dydd drwy ein gwaith a'n rhyngweithiadau gydag eraill, gan gynnwys:

Cyflawni deilliannau rhagorol

Herio mewn ffordd fanwl iawn

Cynnig cynhesrwydd, hiwmor a gostyngedd

Bod yn bobl anhygoel

Sicrhau diogelwch, cynhwysiant ac amrywiaeth i bawb

Creu cyfranogiad mawr

Ymrwymiad i fomentwm diddiwedd

Mynd y cam ychwanegol i gyflawni Cariad Cwsmeriaid

BETH SYDD EI ANGEN ARNOM?

Rydym yn bwriadu penodi Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltiad sydd â'r sgiliau a'r gallu i fynd â'n sefydliad i'r lefel nesaf, drwy ehangu'r brand **pobl** sy'n gwneud i bethau ddigwydd.

Mae hyn yn gyfle gwych i weithiwr proffesiynol cyfathrebu ac ymgysylltiad profiadol ymuno â **pobl** sy'n gwneud i bethau weithio yng nghanol cyfnod o ddatblygiad a her sylweddol i'r sector diwylliannol. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar rhagorol. Bydd gennych sgiliau ysgrifennu copi ardderchog a byddwch yn talu sylw i fanylion. Ar gyfer y swydd hon, mae angen rhywun sy'n gyfforddus yn gweithio mewn sefydliad bychan a phrysur iawn, felly, mae'n rhaid i chi fod yn annibynnol, yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun i gyflawni tasgau mewn da bryd ac i safon uchel iawn a bod yn

gyfathrebwr a chydweithiwr gwych gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. I ni, mae dod o hyd i bobl sy'n rhannu ein cenhadaeth yr un mor bwysig, sef bod yn ardderchog, yn drawsnewidiol, cynnig gwasanaeth rhagorol a sicrhau cynwysoldeb i bawb.

Rydym yn gwybod fod angen inni gael lleisiau mwy amrywiol er mwyn gwneud hyn gyda gweledigaeth a hyder, ac felly rydym yn benodol awyddus i glywed gan ymgeiswyr o gefndiroedd sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn ein harweinyddiaeth a'n llywodraethiant (ymgeiswyr Du, Asiaidd neu amrywiol yn ethnig hefyd, a'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn D/byddar neu anabl).

Os ydych chi'n meddwl y byddech chi'n mwynhau'r her o'n helpu ni a rhannu ein dyheadau i greu sefydliad cynhwysol, amrywiol a chynaliadwy, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

MANYLEB SWYDD - BETH RYDYM ANGEN I CHI FOD

Gweithio gyda'r Pennaeth Datblygu ac Ymgysylltu i gyflawni dull cyffredinol y cwmni o ran cyfathrebu a marchnata strategol a gweithredol; gan fanteisio i'r eithaf ar stori wybodaeth y cwmni a'r rhaglenni allweddol.

Llywio safle'r cwmni a'r rhaglen, a'i broffil a'i weithgaredd, yn unol â datblygiad y gynulleidfa ehangach a strategaeth y brand.

Yn adrodd i: Y Cyfarwyddwr

Cyfrifoldebau Allweddol:

Lefel Rheolwr – pobl sy'n gwneud i bethau ddigwydd

- Rheoli a modelu diwylliant sefydliadol unedig yn seiliedig ar egwyddorion sefydliadol empathi, amrywiaeth, cynwysoldeb a chynaliadwyedd;
- Gweithio ag aelod o'r tîm Arweinyddiaeth i reoli cyllidebau, fel sy'n briodol;
- Sicrhau bod systemau a phrosesau yn gydweithredol;
- Casglu a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm ehangach;

Cyfathrebu:

- Cyfrifol am reolaeth bob dydd y brand **pobl** sy'n gwneud i bethau ddigwydd, datblygu a sicrhau cysondeb o ran tîm llais, personoliaeth brand, hyrwyddo gwerthoedd y brand ledled y sefydliad;
- Bod yn fodel rôl a llywio diwylliant cyfathrebu ac ymgysylltiad positif ledled y cwmni;
- Rheoli ymgyrchoedd cyfathrebu strategol a chreu cynnwys, proffil allanol a negeseuon ledled bob rhaglen;
- Arwain ar bob agwedd ar gyfathrebu a gweithgareddau marchnata ar ran y cwmni;
- Gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr y Rhaglen ar ddatblygu cynnwys marchnata ar gyfer eu rhaglenni;
- Goruchwylio gweithrediad bob dydd gwefan y cwmni a'r llwyfannau cyfathrebu, gan reoli perthnasoedd mewnol ac allanol wrth ddatblygu cynnwys a negeseuon;
- Rheoli ail-ddyluniad y wefan **pobl** sy'n gwneud i bethau ddigwydd;
- Rheoli perthnasoedd cyhoeddus;
- Rheoli, datblygu, gweithredu a gwerthuso effaith cyfathrebu o safon ac ymgysylltiol;

- Hyrwyddo straeon y cwmni a'r rhaglenni i greu cynnwys gwreiddiol ar gyfer ein cynulleidfaedd;
- Hyrwyddo ac uchafu proffil y cwmni a'r rhaglenni i sicrhau bod ein rhanddeiliaid ynghlwm wrth ein gwaith a'n negeseuon allweddol, ac yn eu deall;
- Mynd i gyfarfodydd tîm a rhaglen fel sy'n briodol i gyflwyno gwybodaeth, rhoi cyngor ar anghenion cyfathrebu ac annog trafodaeth a datblygu cynnwys;
- Sicrhau bod y cwmni bob amser yn ystyried anghenion amrywiol y gynulleidfa bob amser;

Ymgysylltiad:

- Datblygu, gweithredu ac adolygu gweithgareddau ymgysylltu'r rhanddeiliaid;
- Dylunio a rheoli cyflawniad ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol / digidol allweddol wedi'u targedu gyda'r nod o gynyddu ac adeiladu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad ar-lein;
- Casglu profiadau bywyd go iawn prosiectau a rhaglenni er mwyn datblygu astudiaethau achos perthnasol ac arwyddocaol;
- Defnyddio mewnwlediadau data ac ymgynghoriad rhanddeiliaid i lywio cynlluniau a dulliau;

Systemau, Prosesau a Chydymffurfiaeth:

- Gweithio gyda Chyfarwyddwyr a Rheolwyr eraill, creu, cynnal, adolygu a dylunio rheolaeth y prosiect tîm a systemau a phrosesau cyfathrebu mewnol i sicrhau bod y sefydliad yn effeithiol ac yn effeithlon;
- Ymchwilio a datblygu system CRM effeithiol ar gyfer y cwmni;
- Cynhyrchu gwybodaeth reoli ac adroddiadau i arddangos effaith y dulliau cyfathrebu;
- Gweithio gydag arweinydd Gweithredol y cwmni i sicrhau bod yr holl weithgareddau marchnata ac ymgysylltiad yn cydymffurfio â deddfwriaeth RhDDC;

BETH FYDDWCH CHI'N CYFRANNU AT Y SWYDD:

- Profiad o weithio mewn swydd debyg;
- Cyfathrebwr hyderus, gallu ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol gan ddefnyddio sianelau aml-gyfrwng;
- Sgiliau ysgrifennu cynnwys ardderchog ar gyfer y wasg;
- Trafod gwybodaeth o sut i ddefnyddio platfformau cyfathrebu amrywiol i gael yr effaith orau;
- Gallu ysbrydoli gyda'ch syniadau gan ddefnyddio dull creadigol i gynnig a brand **pobl** sy'n gwneud i bethau ddigwydd;
- Adroddwr straeon creadigol a chredadwy, gyda phrofiad o fframwaith cyfathrebu proffesiynol;
- Yn ddelfrydol, profiad o sefydlu system CRM;

TERMAU AC AMODAU

Cyflog: £35,000 - £40,000 (Yn dibynnu ar brofiad)

Oriau Contract: 24 awr yr wythnos

Lleoliad: Byddwch yn gweithio o gartref gyda disgwyliad y byddwch yn teithio i'n swyddfeydd pan gytunir ar hynny.

Gwyliau blynyddol: 28 diwrnod, gan gynnwys gwyliau cyhoeddus a gwyliau'r banc (pro-rata ar gyfer staff rhan amser)

Manteision Ychwanegol: Gall pob gweithiwr gael mynediad i'n pecyn lles proffesiynol, gan gynnwys mynediad i Hyfforddiant, Seicotherapi a Chymorth Holistaidd.

Rydym hefyd yn cynnig cynllun sy'n galluogi gweithwyr i brynu hyd at bythefnos o wyliau blynyddol ychwanegol y flwyddyn (pro rata).

Pensiwn: Rydym yn cynnig cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig gyda NEST ac yn annog gweithwyr i ddewis opsiwn i fuddsoddi i Gronfa Foesegol. Bydd cyfraniadau misol yn cael eu didynnu o'ch cyflog, a gallwch gyfrannu isafswm o 5% - neu fwy os hoffech - a byddwn ni'n cyfrannu 3%.

DIDDORDEB?

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwneud cais am y swydd hon, cyflwynwch eich CV a llythyr cyflwyno yn dweud wrthym beth allwch chi ei gyfrannu at **bobl** sy'n gwneud i bethau ddigwydd, beth sy'n eich cymell chi, pam rydych chi'n credu fod hyrwyddo gwerthoedd a nodau ein sefydliad yn gyfle cyffrous ac unrhyw rinweddau personol, angerdd a syniadau fydech chi'n eu cyfrannu fel Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Felly, ysgrifennwch lythyr (dim mwy na dwy ochr A4), fideo neu neges llais 4 munud - beth bynnag rydych chi'n gyfforddus ag ef. Neu, os oes gennych unrhyw ofynion mynediad o ran gwneud cais, cysylltwch â Sandeep Mahal s.mahal@peplemakeitwork.com

Os hoffech gael gwybod mwy amdanom, ewch i'n gwefan www.peplemakeitwork.com neu ein tudalen Twitter <https://mobile.twitter.com/culturepeopleuk>. Edrychwch ar y blog yma am ein sylfaenydd a'r cwmni <https://www.thenormityofnow.co.uk/blog/people-make-it-work-richard-watts> a'r erthygl hon am ein gwaith gydag Arts Professional <https://www.artsprofessional.co.uk/magazine/people-make-it-work>

Anfonwch eich cais i Sandeep Mahal s.mahal@peplemakeitwork.com erbyn 12pm ar 4 Ebrill 2022.

Cynhelir cyfweiliadau ar 19 Ebrill, ond byddant yn cael eu cynnal yn rhithwir gan ddefnyddio platfformau ar-lein. Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad o ran y cyfweiliad, rhowch wybod i Sandeep.